**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 21 Mawrth 2024 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | R D Lewis |
| M Bailey | T J Hennegan | W G Lewis |
| M Baker | V A Holland | M W Locke |
| S Bennett | C A Holley | N L Matthews |
| P N Bentu | P R Hood-Williams | P M Matthews |
| P M Black | B Hopkins | P N May |
| A Davis | D H Hopkins | J D McGettrick |
| A M Day | L James | F D O'Brien |
| P Downing | O G James | A J O'Connor |
| C R Doyle | Y V Jardine | C L Philpott |
| M Durke | J W Jones | J E Pritchard |
| C M J Evans | L R Jones | S Pritchard |
| V M Evans | M H Jones | S J Rice |
| E W Fitzgerald | M Jones | B J Rowlands |
| R Fogarty | S Joy | R V Smith |
| R Francis-Davies | S E Keeton | A H Stevens |
| N Furlong | E J King | R C Stewart |
| L S Gibbard | E T Kirchner | W G Thomas |
| F M Gordon | H Lawson | M S Tribe |
| K M Griffiths | A S Lewis | L V Walton |
| H J Gwilliam | M B Lewis | R A Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Caroline Collier | Swyddog Cefnogi'r Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachael Davies | Head of HR & Service Centre |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A Anthony, A J Jeffery, D H Jenkins, S M Jones, P Lloyd, D Phillips, K M Roberts, L G Thomas, G D Walker a/ac T M White

## 113. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a all fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr S Bennett, J P Curtice, R Francis-Davies, J A Hale, T J Hennegan, L R Jones, A S Lewis, M B Lewis, N L Matthews, S Pritchard, S J Rice, M S Tribe ac L V Walton gysylltiad personol â chofnod rhif 119 "Datganiad Cyfrifon 2022/2023".

2) Datganodd y Cynghorwyr T J Hennegan, R A Fogarty, L S Gibbard, B Hopkins, L James, W G Lewis, N L Matthews, C L Philpott ac S J Rice gysylltiad personol â chofnod rhif 120 "Trefniadau Derbyn Ysgolion 2025-2026".

3) Datganodd y Cynghorwyr S J Rice gysylltiad personol â chofnod rhif 121 "Cynllun Gweithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 ar gyfer Abertawe".

4) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, J P Curtice, M Durke, C A Holley, O G James, M Jones, S E Keeton, A S Lewis, R D Lewis, F D O'Brien, C L Philpott ac M S Tribe gysylltiad personol â chofnod rhif 123 "Datganiad Polisi Tâl 2024/2025".

5) Datganodd y Cynghorwyr K Griffiths, C L Philpott ac M S Tribe gysylltiad personol â chofnod rhif 126 "Enwebiad yr Arglwydd Faer a Dirprwy Arglwydd Faer Etholedig 2024-2025".

6) Datganodd y Cynghorwyr E W Fitzgerald a P R Hood-Williams gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 126 "Enwebu Arglwydd Faer a Dirprwy Arglwydd Faer Etholedig 2024-2025" a gadawsant y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

7) Datganodd y Cynghorwyr B Hopkins, D H Hopkins a N L Matthews gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 127 "Polisi Enwi" a gadawsant y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

8) Datganodd y Cynghorydd A S Stevens gysylltiad personol â chofnod rhif 128 "Cwestiynau Cynghorwyr".

Swyddogion

1) Datganodd G Borsden, C Collier, R Davies, H Evans, H Morgan-Rees, M Nicholls, a B Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod rhif 123 "Datganiad Polisi Tâl 2024/25" a gadawsant y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

**Sylwer:** Ni adawodd R Davies a H Evans y cyfarfod gan eu bod am aros i ateb unrhyw gwestiynau technegol am yr adroddiad, cynnal y bleidlais, a chofnodi'r penderfyniad.

2) Datganodd B Smith a D Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod rhif 125 "Cynllun Gwerthuso Swydd y Prif Swyddog" a gadawsant y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

**114. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.**

**a) Cynrychiolwyr Merched Ysgol Abertawe dan 13 oed**

Croesawodd yr Aelod Llywyddol gynrychiolwyr Merched Ysgol Abertawe dan 13 oed i'r Cyngor. Dywedodd fod y Tîm wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Pencampwyr Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Lloegr. Mae eu taith i'r rownd derfynol wedi cynnwys buddugoliaeth oddi cartref 8-1 yn erbyn Slough, buddugoliaeth gartref 2-1 yn erbyn Brighton, buddugoliaeth oddi cartref 5-2 yn erbyn West Kent, yna cyfle i chwarae yn y rownd gynderfynol ynghyd â Lerpwl. Yn y rownd gyn-derfynol, enillwyd yn erbyn East Riding 5-2. Nawr, fyddant yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol a fyddant yn chwarae ar faes Dinas Stoke. Nid yw'r dyddiad wedi'i gyhoeddi eto.

Enillodd y tîm gynghrair Gorllewin Cymru hefyd ac maent wedi cyrraedd Rownd Gynderfynol Cymru. Mae'r tîm yn rhoi enw Abertawe ar y map. Ar ran y Cyngor, dymunwyd pob lwc iddynt yn y rownd derfynol.

**b) Data Tir - Gwobrau Pridiannau Tir Lleol 2024**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Dîm Pridiannau Tir y Cyngor o fewn y Gwasanaethau Cynllunio am ennill Gwobr Boddhad Cwsmeriaid yn ddiweddar - y Gorau mewn Cynghorau Unedol. Nhw yw'r cyntaf yng Nghymru i ennill y wobr. Mae'r Tîm Pridiannau Tir yn rheoli chwiliadau trawsgludo sy'n rhan hanfodol o symud adref ar gyfer ein preswylwyr. Mae trawsgludwyr a chyfreithwyr yn pleidleisio dros y wobr a gofynnir iddynt ystyried ansawdd, effeithlonrwydd, dibynadwyedd a gwerth am arian.

**c) Diwygiadau/cywiriadau i Wŷs y Cyngor**

**i) Eitem 9 - Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Hawliau Dynol 2024-2028.**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod gwall yn y Paragraff sy'n ymwneud â "Hil" ar dudalen 105 o Wŷs y Cyngor yn Atodiad A, Adran 3 "Amdanom Ni", mae penawdau allweddol o Gyfrifiad 2021 yn dweud wrthym am elfen o'r adroddiad. Dylai'r paragraff ddarllen:

***"Hil***

*Mae gan Abertawe gyfran uwch o bobl mewn grwpiau ethnig heb fod yn wyn (8.6%) na chyfartaledd Cymru. Y grŵp ethnig heb fod yn wyn mwyaf yn Abertawe yn 2021 oedd '**Bangladeshaidd'** (tua 2,900 o bobl neu 1.2%).*

**ii) Eitem 15- Cwestiynau Cynghorwyr - Cwestiwn 2**
Mae yna wall teipograffyddol yn yr ymateb. Dylai'r ffigur ddarllen £231,387.50. Roedd yr ymateb yn cynnwys coma yn hytrach nag atalnod llawn.

**iii) Adroddiad Archwilio Cymru. Archwilio Cyfrifon - Dinas a Sir Abertawe a Datganiad o Gyfrifon 2022/2023.**
Mae'r Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi cytuno i ychwanegu'r adroddiadau hyn at Wŷs y Cyngor gan roi'r rhybudd statudol o 3 diwrnod gwaith clir i ganiatáu i'r Datganiad o Gyfrifon gael ei ystyried yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu hystyried ar ôl Eitem 6 "Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022-2023".

**115. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

**a) Digwyddiad Cwrdd â'r Fargen Ddinesig**
Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi cael y pleser o fod yn bresennol ar gyfer Digwyddiad Cwrdd â'r Fargen Ddinesig yn Arena Abertawe yn ddiweddar. Roedd y digwyddiad ar ben-blwydd llofnodi Bargen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £1.3B.

**116. Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Gofynnodd Elinor Field gwestiwn ynghylch Cofnod 120 "Trefniadau Derbyn Ysgolion 2025-2026".

Ymatebodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu gan ddweud y byddai'n codi'r mater gyda'r Fforwm Derbyn.

**117. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022-2023.**

Cyflwynodd Mike Lewis, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau adroddiad gwybodaeth yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023.

**118. Adroddiad Archwilio Cymru - Adroddiad Archwilio Cyfrifon Dinas a Sir Abertawe.**

Cyflwynodd Derwyn Owen a Leanne Malough, Archwilio Cymru "Adroddiad Archwilio Cymru, Archwilio Cyfrifon 2022-2023 ar gyfer Dinas a Sir Abertawe".

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo a llofnodi'r Llythyr Sylwadau Terfynol.

## 119. Datganiad o Gyfrifon 2022/23.

Cyflwynodd y Swyddog 151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2022/2023 ar 31 Gorffennaf 2023 neu cyn hynny.

Esboniodd Swyddog Adran 151 y rhesymau dros yr oedi a'r materion ehangach sydd wedi'u dogfennu'n sy'n effeithio ar archwiliad allanol gyfan llywodraeth leol o gyfrifon yn y DU.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2022/2023 fel y'i nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

## 120. Trefniadau Derbyn Ysgolion 2025-2026.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn gofyn am benderfyniad ar y trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion a gynhelir ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025-2026.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2025-2026 ar gyfer dosbarthiadau meithrin fel a nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

2) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2025-2026 ar gyfer dosbarthiadau derbyn fel a nodir yn Atodiad B yr adroddiad.

3) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2025-2026 ar gyfer Blwyddyn 7 fel a nodir yn Atodiad C yr adroddiad.

4) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2025-2026 ar gyfer trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn fel a nodir yn Atodiad Ch yr adroddiad.

5) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn/meini prawf derbyn arfaethedig ar gyfer 2025-2026 ar gyfer dosbarthiadau'r chweched yn Atodiad D yr adroddiad.

6) Cymeradwyo'r Amserlen Ddigwyddiadau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd fel a nodir yn Atodiad Dd yr adroddiad.

7) Nodi'r niferoedd derbyn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, fel a nodir yn Atodiad E yr adroddiad.

## 121. Cynllun Gweithredu Adran 6 y Ddyletswydd Bioamrywiaeth.

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor Trawsnewid y Gwasanaeth Newid yn yr Hinsawdd ac Adferiad Natur adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Gweithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 drafft ar gyfer Abertawe 2023-2025.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu Cynllun Gweithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 drafft ar gyfer Abertawe (2023-2025).

**122. Cynllun Hawliau Dynol a Chydraddoldeb Strategol 2024/28.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn ceisio mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Hawliau Dynol sy'n cynnwys Amcanion Cydraddoldeb Hawliau Dynol y Cyngor ar gyfer 2024-2028.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Hawliau Dynol 2024-2028.

**123. Datganiad Polisi Tâl 2024/25.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Datganiad Polisi Cyflog Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2024-2025.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflog 2024-2025 fel a atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

**124. Adolygiad Blynyddol o Amcanion Lles.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn argymell newidiadau i Amcanion Llesiant y Cyngor o ganlyniad i adolygiad blynyddol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu a yw eu Hamcanion Llesiant yn parhau i fod yn briodol ai peidio.

**Penderfynwyd** bod Amcanion Llesiant y Cyngor yn parhau heb newid ar gyfer 2024-2028.

**125. Cynllun Gwerthuso Swyddi'r Prif Swyddog.**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad er gwybodaeth a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cynllun Gwerthuso Swyddi newydd ar gyfer Prif Swyddogion a'r camau nesaf i'w cymryd.

**126. Enwebu'r Darpar Arglwydd Faer a'r Darpar Ddirprwy Arglwydd Faer ar gyfer 2024-2025.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn gofyn am enwebiadau ar gyfer yr Arglwydd Faer Etholedig a'r Dirprwy Arglwydd Faer Etholedig er mwyn caniatáu i drefniadau ar gyfer digwyddiad Urddo'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer fynd yn eu blaenau.

**Penderfynwyd:**

1) Enwebwyd y Cynghorydd Paxton Hood-Williams Thomas yn Arglwydd Faer Etholedig 2024-2025.

2) Enwebwyd y Cynghorydd Wendy Fitzgerald yn Ddirprwy Arglwydd Faer Etholedig 2024-2025.

**127. Cynigion Enwi.**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio ystyried cynnig i ail-enwi Ystafell Gaerloyw.

**Penderfynwyd** ail-enwi Ystafell Gaerloyw yn Ystafell Lilian Hopkin.

**128. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd chwe (6) 'Chwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngŵŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 3**
Gofynnodd y Cynghorydd B J Rowlands am gopi o ymateb ymgynghoriad y Cyngor i Gynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) 'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd un (1) 'cwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.40 pm

**Cadeirydd**